# POLISI GOHIRIO ASTUDIAETHAU I FYFYRWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr (SPSA) | | |
| **Awdur** | Rheolwr Gweinyddiaeth Myfyrwyr | | |
| **Awdurdodwyd Gan:** | Cyfarwyddwr SPSA | | |
| **Gweithredwyd Gan:** | SPSA | | |
| **Fersiwn Rhif:** | F6 | **Pwyllgor Cymeradwyo:** | Bwrdd Academaidd |
| **Dyddiad cymeradwyo:** | Tachwedd 2021 | **Rhif Cofnod:** | |
| **Statws:** | Wedi'i gymeradwyo | **Dyddiad Gweithredu:** | Tachwedd 2021 |
| **Cyfnod cymeradwyo:** | 2 flynedd | **Dyddiad Adolygu:** | Gorffennaf 2023 |

| | |
|---|---|
| Rwyf wedi cynnal prawf sgrinio asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu ac i hyrwyddo cydraddoldeb. | ✓ |
| Rwyf wedi ystyried effaith y polisi ar yr iaith Gymraeg a darpariaeth yr iaith Gymraeg yn y Brifysgol. | ✓ |

## Polisi ynghylch myfyrwyr yn gohirio eu hastudiaethau ym Mhrifysgol Wrecsam

Mae'r polisi hwn ynghylch rheoli gohiriad astudiaethau'n unol ag ymrwymiad Prifysgol Wrecsam i gefnogi'r gwaith o ehangu cyfranogiad, hyrwyddo cyfraddau cadw myfyrwyr a gwella profiad y myfyriwr.

Mae hefyd yn cydnabod pwysigrwydd adrodd cywir yn fewnol a gydag asiantaethau allanol, o ran y Brifysgol a'r myfyrwyr unigol, megis yr Awdurdod Lleol a Chwmnïau Benthyciadau Myfyrwyr, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch a Fisâu a Mewnfudo'r DU.

Rhennir y Polisi yn ddwy ran:
Adran Un: Myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar Raglenni'n Seiliedig ar y Campws a Dysgu Cyfunol
Adran Dau: Myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar Raglenni a'u Darperir Ar-lein yn Unig neu drwy Ddysgu o Bell

## Diben y Polisi

- Rhoi cyfle i fyfyrwyr drafod materion sy'n gysylltiedig â pharhau i gwblhau eu hastudiaethau
- Rhoi cyfle i fyfyrwyr gytuno i gyfnod byr o absenoldeb awdurdodedig, os yw hynny'n briodol

- Rheoli prosesau gohirio ac ail-ymrestru er mwyn sicrhau bod cofnodion yn gyfredol, a bod y Brifysgol yn gallu bodloni ei rhwymedigaethau o ran cadw cofnodion cywir
- Darparu gwybodaeth ynghylch presenoldeb myfyrwyr i wella'r cymorth a roddir i fyfyrwyr a phrofiad y myfyriwr
- Darparu manylion gweithredol i gefnogi adran 12 y Rheoliadau Academaidd, Rheoliadau Cyffredinol, Gohirio Astudiaethau, y dylid eu darllen ar y cyd â'r polisi hwn.

## Adran Un: Myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar Raglenni'n Seiliedig ar y Campws a Dysgu Cyfunol Rhaglenni

### Diffiniad a Chwmpas Gohirio Astudiaethau

**1.1** Ar ôl i fyfyriwr gofrestru ar raglen astudio, disgwylir iddo/iddi gwblhau'r rhaglen honno o fewn y cyfnodau astudio arferol, oni bai ei fod ef/hi yn gadael y Brifysgol neu'n gohirio astudiaethau.

**1.2** Mae'r adran hon o fewn y weithdrefn yn berthnasol i bob myfyriwr sydd wedi cofrestru ar raglen sy'n seiliedig ar y campws neu raglen dysgu cyfunol sy'n cael eu dyfarnu gan Brifysgol Wrecsam, yn cynnwys y rheiny sy'n astudio mewn colegau/sefydliadau partner. Bydd myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar raglenni nad ydynt yn cael eu dyfarnu gan Brifysgol Wrecsam yn cydymffurfio â gofynion gohirio eu corff dyfarnu.

**1.3** Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall myfyrwyr deimlo rheidrwydd i ymyrryd ar eu hastudiaethau yn ystod sesiwn academaidd am wahanol resymau. Mewn achos o'r fath, gall myfyrwyr wneud cais i ohirio eu hastudiaethau. Noder, nid oes gan fyfyrwyr hawl i ohirio eu hastudiaethau; rhaid cyflwyno cais i ohirio astudiaethau i Arweinydd y Rhaglen, a chael ei gymeradwyaeth.

**1.4** Dyma'r seiliau y gall myfyriwr wneud cais i ohirio ei astudiaethau:

- Iechyd
- Amgylchiadau personol eithriadol
- Ariannol

**1.5** Mae'r Brifysgol yn cydnabod y ceir achosion lle mae gofyn i fyfyriwr ohirio astudiaethau tra bo'r Brifysgol yn ymchwilio ei achos dan Weithdrefnau Disgyblu neu Addasrwydd i Ymarfer. Mae gwybodaeth bellach ynghylch gohirio gorfodol mewn achosion o'r fath ar gael yn y weithdrefn berthnasol.

**1.6** Os bydd myfyriwr yn gwneud cais am gyfnod o absenoldeb rhiant, bydd Tîm y Rhaglen yn dilyn y weithdrefn a amlinellwyd yng Ngweithdrefn i Rieni'r Brifysgol. Bydd gofyn i fyfyrwyr rhyngwladol sy'n cael eu noddi gyda fisa tymor cyfyngedig geisio cyngor gan y Tîm Cydymffurfiaeth Mewnfudo ynghylch yr effaith all absenoldeb ei gael ar amodau eu fisa.

**1.7** Mae gohirio astudiaethau'n golygu gohirio pob modiwl sy'n gysylltiedig â rhaglen astudio maen nhw wedi cofrestru arni.

**1.8** Fel arfer, ni fydd ceisiadau i ohirio astudiaethau'n cael eu hôl-ddyddio. Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd Deon y Gyfadran neu enwebai yn cytuno i ôl-ddyddio cais am uchafswm o fis, os darperir tystiolaeth ategol i gefnogi'r gwaith i ôl-ddyddio'r cais.

**1.9** Disgwylir i fyfyrwyr ailddechrau eu hastudiaethau ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf, neu ddechrau'r tymor pan ddechreuodd y gohiriad yn ystod y flwyddyn flaenorol.

**1.10** Fel arfer, nid oes gan fyfyrwyr hawl i ohirio eu hastudiaethau cyn cyfnod o arholiadau neu asesu, neu yn ystod cyfnod ailasesu. (gweler 1.15 isod)

**Y Weithdrefn**

Myfyrwyr sy'n ystyried gohirio eu hastudiaethau

**1.11** Anogir myfyrwyr i geisio cyngor os profir unrhyw anawsterau. Dylai myfyrwyr gysylltu ag Arweinydd eu Rhaglen am gyngor ac arweiniad ynghylch materion academaidd. Yn achos problemau personol, efallai y bydd myfyrwyr yn dymuno cysylltu â'u Tiwtor Personol neu dîm Bywyd Myfyrwyr a Champws am gyngor ac arweiniad.

**1.12** Yn ystod trafodaeth gyda myfyriwr sy'n ystyried gohirio astudiaethau, dylai'r tiwtor priodol neu aelod o dîm Bywyd Myfyrwyr a Champws drafod y rhesymau y tu cefn i bryderon y myfyriwr, ac ystyried a ellir cymryd camau gweithredu i wella'r sefyllfa. Dylid trafod opsiynau megis cyfnod byr o absenoldeb awdurdodedig, trosglwyddo (i raglen neu sefydliad arall), newid dull astudio neu gyflwyno hawliad Amgylchiadau Esgusodol, yn ogystal â gohirio neu dynnu'n ôl. Dylid dod i gytundeb ynghylch unrhyw gamau y'u cymerir, a dylid eu cofnodi'n gywir (gweler 1.13).

**1.13** Ar ôl gwneud penderfyniad, ac os bydd y myfyriwr yn dewis gwneud cais i ohirio astudiaethau, mae'n rhaid cwblhau Ffurflen C Gohirio Astudiaethau.

**1.14** Mae'n rhaid i Arweinydd y Rhaglen gymeradwy cais y myfyriwr i ohirio astudiaethau. Dylid cofnodi dyddiad dechrau'r gohiriad a'r dyddiad dychwelyd. Dylid cofnodi unrhyw arsylwadau a chamau gweithredu cytunedig ar y ffurflen. Bydd angen tystiolaeth i gefnogi'r cais. Dylai'r myfyriwr gyflwyno'r ffurflen wedi'i chwblhau'n llawn i SPSA. Ar ôl dod i benderfyniad ynghylch y cais am absenoldeb awdurdodedig, gwneir cofnod o'r penderfyniad ar y system cofnodion myfyrwyr, a bydd unrhyw dystiolaeth ategol sy'n cynnwys data personol yn cael ei dinistrio.

**1.15** Mae'n rhaid i geisiadau i Ohirio Astudiaethau sy'n dechrau fis, neu lai, cyn cyfnod arholiadau, asesu neu ailasesu, gynnwys sail resymegol a thystiolaeth i gefnogi'r cais eithriadol hwn, ac efallai y caiff y cais ei drosglwyddo i ddwylo'r Cofrestrydd Academaidd neu enwebai, i gael cadarnhad terfynol.

**1.16** Efallai y cytunir ar absenoldeb awdurdodedig i ddelio â materion neu salwch cyfnod byr. Fel arfer, bydd hyn yn para dim mwy na phythefnos, ond fel eithriad, gellir caniatáu cyfnod hyd at fis lle ellir darparu tystiolaeth addas i gefnogi cais o'r fath. Dylid cofnodi hyn ar Ffurflen E Absenoldeb Awdurdodedig. Rhaid i Arweinydd y

Rhaglen gytuno ar ddyddiad dechrau a gorffen ar gyfer y cyfnod o absenoldeb awdurdodedig (a rhaid cael cymeradwyaeth gan y Tîm Cydymffurfiaeth Mewnfudo os bydd myfyriwr rhyngwladol sy'n cael ei noddi'n gwneud cais).

**1.17** Mae'n rhaid i geisiadau am absenoldeb awdurdodedig sy'n gysylltiedig â salwch gael eu cefnogi gan dystysgrif gan ymarferydd proffesiynol annibynnol, megis Meddyg Teulu neu Gwnselydd sy'n cefnogi'r myfyriwr ar hyn o bryd, sy'n nodi'n glir nad oeddynt yn gallu bod yn bresennol. Os gwneir cais o ganlyniad i brofedigaeth neu amgylchiadau personol/teuluol eithriadol, gofynnir i'r myfyriwr gyflwyno tystiolaeth annibynnol, megis tystysgrif marwolaeth, i gefnogi'r hawliad. Ar ôl dod i benderfyniad ynghylch y cais am absenoldeb awdurdodedig, gwneir cofnod o'r penderfyniad ar y system cofnodion myfyrwyr, a bydd unrhyw dystiolaeth ategol yn cael ei dinistrio.

**1.18** Dylai myfyrwyr sy'n ystyried absenoldeb awdurdodedig ystyried effaith hyn ar eu hastudiaethau, a thrafod sut y byddant yn adennill amser astudio gyda'u Harweinydd Rhaglen. Os yw'r absenoldeb yn cyd-ddigwydd â chyfnod o asesiadau, efallai y bydd angen cyflwyno cais am estyniad i ddyddiad cau neu hawliad Amgylchiadau Esgusodol ar yr adeg briodol. Cyfrifoldeb y myfyriwr yw cyflwyno cais cyn y dyddiad cau a benodwyd, os bydd angen gwneud hyn.

**1.19** Rhaid ymdrin ag absenoldeb sydd wedi mynd y tu hwnt i fis fel gohiriad astudiaethau, yn hytrach nag absenoldeb awdurdodedig.

**1.20** Efallai na chymeradwyir gohiriad astudiaethau am fwy nag un flwyddyn. Mewn amgylchiadau eithriadol iawn, efallai y gellir gwneud cais i ymestyn y gohiriad ar ôl 1 blwyddyn. Dylai myfyrwyr gofio nad yw gohiriad yn golygu y bydd y cyfnod cofrestru ar gyfer y rhaglen yn ymestyn, a rhaid sicrhau bod ganddynt ddigon o amser i gwblhau'r rhaglen ar ôl dychwelyd.

**1.21** Gall Arweinydd y Rhaglen wrthod cais gan fyfyriwr i ohirio astudiaethau, os nad yw'r rheswm yn ddigon cysylltiedig â phroblemau personol go iawn, neu newid mewn amgylchiadau, yn ei barn hi/ei farn ef.

**1.22** Gall myfyriwr ofyn i Ddeon y Gyfadran neu enwebai adolygu cais am ohiriad a wrthodwyd

**1.23** Ni fydd bwrdd asesu'n ystyried marciau modiwl myfyrwyr sydd wedi cael eu hatal yn ystod eu cyfnod atal, oni bai fod y myfyriwr wedi cwblhau ac wedi cyflwyno'r asesiad cyn dechrau'r cyfnod atal.

**1.24** Ni fydd myfyrwyr y mae eu cais i ohirio astudiaethau wedi'i gymeradwyo yn cael mynychu dosbarthiadau neu wneud unrhyw asesiad nes eu bod nhw wedi ail-ymrestru. Gyda chymeradwyaeth Deon y Gyfadran (neu enwebai), efallai y cânt ddefnyddio nifer cyfyngedig o adnoddau yn y Brifysgol.

**1.25** Fel rheol, ni chymeradwyir ceisiadau hwyr i ohirio astudiaethau, ac os y'u cyflwynir, bydd angen darparu rhesymau dros gyflwyno'r cais yn hwyr.

**1.26** Os bydd myfyriwr yn methu ag ailddechrau astudiaethau ar y dyddiad cytunedig a nodwyd ar y ffurflen ohirio, mae'n rhaid iddo/iddi un ai wneud cais arall i ohirio astudiaethau (cymeradwyir mewn amgylchiadau eithriadol yn unig) neu caiff ei dynnu'n ôl o astudio.

**1.27** Bydd methu â hysbysu'r Brifysgol yn brydlon ynghylch myfyriwr yn gohirio astudiaethau yn arwain at y myfyriwr yn parhau i fod yn gyfrifol am dalu ffioedd i'r Brifysgol, ac
efallai y bydd yn rhaid ad-dalu bwrsariaeth neu fenthyciad myfyrwyr.

**1.28** Ar ôl derbyn ffurflen ohirio wedi'i chwblhau'n llawn a'i llofnodi, bydd yr SPSA yn hysbysu'r SRS, fydd yn newid y system cofnodion myfyrwyr ac yn hysbysu'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, os oes angen gwneud hyn. Codir ffioedd dysgu yn unol â'r Rheoliadau Ffioedd Dysgu, a dylai myfyrwyr geisio arweiniad gan y Tîm Cyllid Myfyrwyr a Chyngor Ariannol a'r awdurdodau perthnasol ynghylch goblygiadau gohirio astudiaethau ar fenthyciadau a bwrsariaethau myfyrwyr. O ran myfyrwyr rhyngwladol sy'n cael eu noddi, hysbysir yr UKVI hefyd - gweler isod.

**1.29** Dylid hefyd hysbysu'r SPSA yn brydlon ynghylch unrhyw newid arall i gofrestriad y myfyriwr, megis trosglwyddo i raglen arall neu newid dull astudio, gan ddefnyddio Ffurflen D, Newid Rhaglen.

**1.30** Mae Arweinydd y Rhaglen yn gyfrifol am hysbysu tîm y rhaglen os bydd myfyriwr yn gohirio ei astudiaethau.

<u>Gofynion Ychwanegol ar gyfer Myfyrwyr Rhyngwladol sy'n cael eu Noddi</u>

**1.31** Mae'n rhaid i sefydliadau gadw cofnodion penodol ynghylch presenoldeb myfyrwyr (rhyngwladol) sy'n cael eu noddi, a hysbysu Fisâu a Mewnfudo'r DU os bydd unrhyw fyfyriwr yn methu â bod yn bresennol neu'n gohirio astudiaethau. I'r perwyl hwn, mae'r Brifysgol yn gorfod llunio adroddiad ffurfiol pan fydd myfyrwyr rhyngwladol yn absennol neu'n cael eu hatal, dan ddeddfwriaeth y DU.

**1.32** Mae'n rhaid i fyfyrwyr rhyngwladol sydd eisiau cymryd seibiant o astudio, fel arfer am bythefnos neu lai, gwblhau ffurflen Absenoldeb Awdurdodedig, cael caniatâd arweinydd rhaglen i gymryd absenoldeb awdurdodedig, a chyflwyno'r ffurflen lawn i SPSA neu weinyddwr perthnasol mewn sefydliad partner. Nid yw hyn yn effeithio ar nawdd, ond efallai y bydd Prifysgol Wrecsam yn parhau i hysbysu UKVI ynghylch yr absenoldeb awdurdodedig.

**1.33** Gall myfyrwyr rhyngwladol sy'n cael eu noddi, sy'n teithio adref am gyfnodau byr o absenoldeb awdurdodedig, fel arfer am bythefnos neu lai, geisio llythyr teithio gan yr SPSA.

**1.34** Mae'n rhaid i fyfyrwyr rhyngwladol sy'n gwneud cais am absenoldeb awdurdodedig eithriadol rhwng 2 a 4 wythnos, ddarparu tystiolaeth ychwanegol i gefnogi hyn (e.e. llythyr gan feddyg). Bydd ceisiadau o'r fath angen cymeradwyaeth ychwanegol gan Dîm Cydymffurfiaeth Mewnfudo'r Brifysgol yn Wrecsam.

**1.35** Mae'n rhaid i Fyfyrwyr Rhyngwladol sy'n gwneud cais am absenoldeb sy'n fwy na 2 wythnos (neu 4 wythnos fel eithriad) ohirio eu hastudiaethau, fydd yn dirymu eu nawdd fisa. Mae'n rhaid i fyfyrwyr sydd wedi gohirio eu hastudiaethau ddychwelyd adref am weddill eu cyfnod gohirio. Os dywedwyd wrth fyfyriwr rhyngwladol y gallai ailddechrau ei astudiaethau ar ddyddiad hwyrach, mae'n

rhaid iddo/iddi wneud cais ffurfiol am CAS newydd, fydd yn cael ei asesu cyn ei gymeradwyo.

**1.36** Mae'n rhaid i fyfyrwyr sy'n hysbysu'r Brifysgol na allant deithio adref oherwydd salwch estynedig neu feichiogrwydd hwyr, ohiri eu hastudiaethau, ac mae'n rhaid i Brifysgol Wrecsam hysbysu'r UKVI ynghylch hyn. Felly, bydd caniatâd i aros yn y DU
dan y fisa rhyngwladol yn cael ei gwtogi yn ystod cyfnod o ohirio astudiaethau. Mewn achos o'r fath, bydd yr UKVI yn cael gwybod bod y myfyriwr wedi nodi nad yw'n gallu teithio, ond yna bydd y broblem o
ganiatâd i aros yn y DU yn fater rhwng y myfyriwr ei hun a'r UKVI. Mewn rhai amgylchiadau, bydd yr UKVI yn rhoi caniatâd tosturiol i aros yn y DU yn ôl disgresiwn, ond cyfrifoldeb y myfyriwr yw gwneud trefniad o'r fath gyda'r UKVI.

## Adran Dau: Myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar Raglenni a'u Darperir Ar-lein yn Unig neu drwy Ddysgu o Bell

### Diffiniad a Chwmpas Gohirio Astudiaethau

**2.1** Ar ôl i fyfyriwr gofrestru ar raglen astudio, disgwylir iddo/iddi gwblhau'r rhaglen honno o fewn y cyfnodau astudio arferol, oni bai ei fod ef/hi yn gadael y Brifysgol, yn cymryd seibiant neu'n gohirio astudiaethau.

**2.2** Mae'r adran hon o fewn y weithdrefn yn berthnasol i bob myfyriwr sydd wedi cofrestru ar ddyfarniadau Prifysgol Wrecsam, sy'n cael eu darparu ar-lein yn unig neu drwy ddysgu o bell.

**2.3** Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall myfyrwyr deimlo rheidrwydd i ymyrryd ar eu hastudiaethau yn ystod sesiwn academaidd am wahanol resymau. Mewn achos o'r fath, gall myfyrwyr wneud cais i:

- gymryd seibiant o'u hastudiaethau am un bloc neu hyd at uchafswm cynyddol o chwe bloc, ac am ddim mwy na dau floc dilynol
- gohirio astudiaethau os ydynt yn dymuno gwneud cais am seibiant parhaus sy'n fwy na dau floc.

**2.4** Dylai myfyrwyr sydd eisiau gwneud cais ffurfiol i ohirio astudiaethau gysylltu â'u Cydlynydd Llwyddiant Myfyriwr i drafod hyn. Noder, nid oes gan fyfyrwyr hawl i ohirio eu hastudiaethau; rhaid cyflwyno cais i ohirio astudiaethau i'r Cydlynwyr Llwyddiant Myfyriwr.

**2.5** Dyma'r seiliau y gall myfyriwr wneud cais i ohirio ei astudiaethau:

- Iechyd
- Amgylchiadau personol eithriadol
- Ariannol

**2.6** Mae'r Brifysgol yn cydnabod y ceir achosion lle mae gofyn i fyfyriwr ohirio astudiaethau tra bo'r Brifysgol yn ymchwilio ei achos dan Weithdrefnau Disgyblu neu Addasrwydd i Ymarfer. Mae gwybodaeth bellach ynghylch gohirio gorfodol mewn achosion o'r fath ar gael yn y weithdrefn berthnasol.

**2.7** Os bydd myfyriwr yn gwneud cais am gyfnod o absenoldeb rhiant, bydd Tîm y Rhaglen yn dilyn y weithdrefn a amlinellwyd yng Ngweithdrefn i Rieni'r Brifysgol.

**2.8** Mae cymryd Seibiant o Astudio neu Ohirio Astudiaethau'n golygu gohirio pob modiwl sy'n gysylltiedig â rhaglen astudio maen nhw wedi cofrestru arni.
Fodd bynnag, byddai dal yn ofynnol i fyfyrwyr gwblhau unrhyw ailasesiadau sydd heb eu cwblhau yn ystod seibiant neu gyfnod o ohirio.

**2.9** Fel arfer, ni fydd ceisiadau i ohirio astudiaethau'n cael eu hôl-ddyddio.

**2.10** Disgwylir i fyfyrwyr ailddechrau eu hastudiaethau ar ddechrau'r modiwl nesaf, yn dilyn seibiant o astudio.

**2.11** Disgwylir i fyfyrwyr ailddechrau eu hastudiaethau ar ddyddiad dychwelyd y cytunwyd arno'n flaenorol, ar ôl cyfnod o ohirio, yn dibynnu ar batrwm darparu unrhyw fodiwlau nad ydynt wedi'u cwblhau.

## Y Weithdrefn

<u>Myfyrwyr sy'n ystyried cymryd seibiant o astudio</u>

**2.12** Mae'n rhaid i fyfyrwyr sydd eisiau cymryd seibiant o astudio am un bloc hysbysu'r Brifysgol cyn dechrau'r bloc hwnnw. Os nad yw myfyriwr yn cofrestru ar gyfer modiwl, ac yn methu â hysbysu'r Brifysgol ynghylch cymryd seibiant o astudio cyn pen 7 diwrnod o ddyddiad dechrau'r modiwl, bydd y Brifysgol yn cofnodi statws y myfyriwr fel seibiant o astudio, a hysbysir yr SLC os oes angen gwneud hyn.

**2.13** Anogir myfyrwyr i geisio cyngor os profir unrhyw anawsterau. I ddechrau, dylai myfyrwyr gysylltu â'r Cydlynydd Llwyddiant Myfyriwr, fydd yn eu cynorthwyo nhw i gael y cymorth a'r arweiniad academaidd neu fugeiliol cywir yn y Brifysgol.

**2.14** Dylai myfyrwyr sy'n ystyried cymryd seibiant o astudio ystyried effaith hyn ar eu hastudiaethau, a thrafod sut y byddant yn adennill amser astudio gyda'u Cydlynydd Llwyddiant Myfyriwr. Ymhlith y pethau y dylid eu hystyried, mae proffil presennol y myfyriwr, amserlen ddarparu unrhyw fodiwlau heb eu cwblhau, cyfnod cofrestru'r myfyriwr ac unrhyw gyfnod blaenorol o ohirio. Dylid cynghori myfyrwyr ynghylch unrhyw effaith ariannol hefyd.

<u>Myfyrwyr sy'n ystyried gohirio eu hastudiaethau am fwy na dau floc</u>

**2.15** Anogir myfyrwyr i geisio cyngor os profir unrhyw anawsterau. I ddechrau, dylai myfyrwyr gysylltu â'r Cydlynydd Llwyddiant Myfyriwr, fydd yn eu cynorthwyo nhw i gael y cymorth a'r arweiniad academaidd neu fugeiliol cywir yn y Brifysgol.

**2.16** Yn ystod trafodaeth gyda myfyriwr sy'n ystyried gohirio astudiaethau, dylai'r Cydlynydd Llwyddiant Myfyriwr drafod y rhesymau y tu cefn i bryderon y myfyriwr, ac ystyried a ellir cymryd camau gweithredu i wella'r sefyllfa. Dylid trafod opsiynau megis seibiant o astudio am hyd at ddau floc, trosglwyddo (i raglen neu sefydliad arall), newid dull astudio neu gyflwyno hawliad Amgylchiadau

Esgusodol, yn ogystal â chyfnod hirach o ohiriad neu dynnu'n ôl. Dylid dod i gytundeb ynghylch unrhyw gamau y'u cymerir, a dylid eu cofnodi'n gywir (gweler 2.17).

**2.17** Ar ôl gwneud penderfyniad, ac os bydd y myfyriwr yn dewis gwneud cais i ohirio astudiaethau, mae'n rhaid cwblhau Ffurflen C Gohirio Astudiaethau.

**2.18** Mae'n rhaid i'r myfyriwr a'r Cydlynydd Llwyddiant Myfyriwr gytuno ar gais am ohiriad. Dylid cytuno ar ddyddiad dechrau'r cyfnod gohirio a dyddiad dychwelyd ar ôl ystyried proffil presennol y myfyriwr, amserlen ddarparu unrhyw fodiwlau heb eu cwblhau, cyfnod cofrestru'r myfyriwr ac unrhyw gyfnod blaenorol o ohirio. Dylid cynghori myfyrwyr ynghylch unrhyw effaith ariannol hefyd. Dylid cofnodi unrhyw arsylwadau a chamau gweithredu cytunedig ar y ffurflen. Bydd angen tystiolaeth i gefnogi'r cais.

**2.19** Dylai'r myfyriwr gyflwyno'r ffurflen wedi'i chwblhau'n llawn i'r Cydlynydd Llwyddiant Myfyriwr. Gwneir cofnod o'r gohiriad ar y system cofnodion myfyrwyr, a bydd unrhyw dystiolaeth ategol sy'n cynnwys data personol yn cael ei dinistrio.

**2.20** Fel arfer, ni fydd myfyrwyr yn cael caniatâd i ohirio cynnig i ailasesu, ac mae'n rhaid iddynt gwblhau'r ailasesiad o fewn y cyfnod amser a nodwyd gan y Bwrdd Asesu Dilyniant/Dyfarnu, neu gyflwyno hawliad Amgylchiadau Esgusodol ffurfiol

**2.21** Efallai na chymeradwyir gohiriad astudiaethau am fwy nag un flwyddyn. Mewn amgylchiadau eithriadol iawn, efallai y gellir gwneud cais i ymestyn y gohiriad ar ôl 1 blwyddyn. Dylai myfyrwyr gofio nad yw gohiriad yn golygu y bydd y cyfnod cofrestru ar gyfer y rhaglen yn ymestyn, a rhaid sicrhau bod ganddynt ddigon o amser i gwblhau'r rhaglen ar ôl dychwelyd.

**2.22** Ni fydd bwrdd asesu'n ystyried marciau modiwl myfyrwyr sydd wedi cael eu hatal yn ystod eu cyfnod atal, oni bai fod y myfyriwr wedi cwblhau ac wedi cyflwyno'r asesiad cyn dechrau'r cyfnod atal, neu'n gwneud ailasesiad.

**2.23** Ni fydd myfyrwyr y mae eu cais i ohirio astudiaethau wedi'i gymeradwyo yn cael cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd ar-lein, yn cael unrhyw fynediad at adnoddau neu wneud unrhyw asesiad nes eu bod nhw wedi ail-ymrestru. Bydd yn rhaid i fyfyrwyr gwblhau unrhyw ailasesiadau (gweler 2.21).

**2.24** Os bydd myfyriwr yn methu ag ailddechrau astudiaethau ar y dyddiad cytunedig a nodwyd ar y ffurflen ohirio, mae'n rhaid iddo/iddi un ai wneud cais arall i ohirio astudiaethau (cymeradwyir mewn amgylchiadau eithriadol yn unig) neu caiff ei dynnu'n ôl o astudio.

**2.25** Ar ôl derbyn ffurflen ohirio wedi'i chwblhau'n llawn a'i llofnodi, bydd y system cofnodion myfyrwyr yn cael ei newid a hysbysir y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, os oes angen gwneud hyn. Dylai myfyrwyr geisio arweiniad gan y Cydlynwyr Llwyddiant Myfyriwr ac unrhyw awdurdodau perthnasol allanol ynghylch goblygiadau gohirio astudiaethau ar fenthyciadau a bwrsariaethau myfyrwyr.

**2.26** Efallai y gofynnir i fyfyrwyr sy'n gwneud cais i gymryd seibiant o astudio neu ohirio astudiaethau gymryd cyfnod gohirio pellach, os nad yw'r modiwl(au) y gwnaethant ei ohirio'n wreiddiol ar gael pan maent yn gwneud cais i ailddechrau astudio.

**2.27** Dylid hefyd hysbysu'r Cydlynydd Llwyddiant Myfyriwr yn brydlon ynghylch unrhyw newid arall i gofrestriad y myfyriwr, megis trosglwyddo i raglen arall neu newid dull astudio, gan ddefnyddio Ffurflen D, Newid Rhaglen.